



# **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2024**



# Cynnwys

Ynglŷn â'r Cyngor Ceiropractig Cyffredinol .....	2
Rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith .....	2
Cefndir .....	2
Crynodeb .....	3
Ein cynnydd yn 2024 .....	3
Metrigau'r Gymraeg .....	6

## Ynglŷn â'r Cyngor Ceiropractig Cyffredinol

Mae'r Cyngor Ceiropractig Cyffredinol (CCC) yn gorff statudol annibynnol sy'n gyfrifol am reoleiddio'r proffesiwn ceiropracteg yn y DU, Ynys Manaw a Gibraltar. Ei rôl yw diogelu iechyd a diogelwch y cyhoedd drwy sicrhau'r safonau uchaf o ymarfer yn y proffesiwn ceiropracteg.

Wedi'i sefydlu gan Ddeddf Ceiropractyddion (1994), mae'r CCC yn un o ddeg rheolydd iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU. Cafodd ei gyfrifoldebau rheoleiddio eu hehangu drwy Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Diogelwch ac Ansawdd) 2015, sy'n pennu y dylai'r holl reoleiddwyr:

- 1) Diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd.
- 2) Hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn eu proffesiynau perthnasol.
- 3) Hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau'r proffesiwn hwnnw.

Mae gan y CCC ddyletswydd yn unol â'r Ddeddf Ceiropractyddion i ddatblygu'r proffesiwn. Mae'n cyflawni'r ddyletswydd hon drwy:

- 1) Cynnal cofrestr genedlaethol o geiropactyddion. Ni all person ymarfer na disgrifio ei hun fel ceiropractydd oni bai ei fod wedi cofrestru gyda'r CCC.
- 2) Cynnal y Cod safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg i geiropactyddion.
- 3) Gweithredu os na fydd ceiropractydd yn bodloni'r safonau sydd yn y Cod.
- 4) Gosod safonau addysgol i unigolion sy'n hyfforddi i fod yn geiropactyddion.

## Rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith

### Cefndir

---

Ar 31 Hydref 2022, daeth Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 2022 i rym ac yn dilyn hysbysiadau drafft ac ymgynghoriadau â'r Weithrediaeth, fe'u cyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg i'r CCC yn weithredol o 6 Rhagfyr 2023.

Mae 67 Safon i'w bodloni. Mae'r CCC yn croesawu'r fframwaith fel dull clir o sut y gallwn wasanaethu'r cyhoedd yn Gymraeg ac ystyried effaith ein llunio polisi ar y defnydd o'r Gymraeg.

Y tu hwnt i'r safonau, rydym yn cofleidio ysbryd y fframwaith fel offeryn i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg – ac rydym yn annog y defnydd o'r Gymraeg gan yr unigolion sydd wedi cofrestru â ni.

## Crynodeb

---

Cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg yr hysbysiad cydymffurfio terfynol i'r CCC ym mis Mehefin 2023, ac o 6 Rhagfyr 2023 roedd y CCC yn destun Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 2022.

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu mis Ionawr i fis Rhagfyr 2024, sy'n adlewyrchu blynyddoedd cofrestru ac ariannol y CCC.

## Ein cynnydd yn 2024

---

Mae'n rhaid i'r CCC fodloni 67 safon y Gymraeg. Mae llawer o'r safonau'n cael eu sbarduno gan ddigwyddiad allanol (er enghraifft aelod o'r cyhoedd yn cysylltu â ni yn y Gymraeg) fodd bynnag rydym yn hyderus bod gennym brosesau ar waith i fodloni'r safonau hyn pan fydd yr amgylchiadau'n codi.

Yn ystod 2024 gwnaethom weithredu'r safon olaf (20 – sy'n ymwneud â chofrestru yn y Gymraeg) yr oedd Comisiynydd y Gymraeg wedi caniatáu yn garedig i ni ei ohirio tan 1 Mehefin 2024.

### Safonau 1-7: Gohebiaeth a chyswllt

Ni wnaeth y CCC dderbyn nac anfon unrhyw ohebiaeth neu gyswllt cymwys yn ystod y cyfnod. Mae templedi llythyrion a llofnodion e-byst yn amlygu:

Os byddwch yn dewis ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ymateb yn Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Fodd bynnag, nodwch nad oes yr un o'n staff yn siarad Cymraeg ar hyn o bryd.

If you choose to write to us in Welsh, we will respond in Welsh. Corresponding in Welsh will not lead to delays. However, please note that none of our staff speak Welsh at the moment.

Mae'r system Ymateb Llais Rhyngweithiol ar brif linell ffôn y CCC yn cynnig y rhestr lawn o wasanaethau yn Gymraeg i alwyr.

### Safonau 8-15: Cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus

Ni chynhaliodd y CCC unrhyw gyfarfodydd wyneb yn wyneb yng Nghymru yn ystod 2024.

Mae gwahoddiad cyfarfod Teams y CCC yn amlygu:

Os ydych chi wedi'ch lleoli yng Nghymru ac yn dymuno cynnal y cyfarfod yn Gymraeg, rhowch wybod i ni fel y gallwn ystyried orau'r gofynion cyfieithu. Fodd bynnag, nad oes yr un o'n staff yn siarad Cymraeg ar hyn o bryd.

If you are based in Wales and wish to conduct this meeting in Welsh, please let us know so that we can best consider the translation requirements. However, please note that currently none of our staff speak Welsh.

Fodd bynnag, ni dderbyniodd y CCC unrhyw geisiadau i gynnal cyfarfodydd ar-lein yn y Gymraeg.

Ni threfnodd y CCC unrhyw ddigwyddiadau na chyfarfodydd yng Nghymru a oedd yn agored i'r cyhoedd yn 2024.

### Safonau 16-22: Cyhoeddiadau, cyhoeddusrwydd, dogfennau a ffurflenni

Yn ystod 2024 gwnaethom gwblhau ein gwaith i wneud y ffurflen ymgeisio i unigolion sy'n dymuno cofrestru fel ceiropractydd ar gael yn y Gymraeg (safon 20).

Gwnaethom hefyd gyhoeddi, yn Gymraeg ac yn Saesneg:

- [Adroddiad Blynyddol 2023 a fersiwn "cipolwg"](#)
- Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2023
- Y ffurflen monitro recriwtio (CAC)
- Y Cod Ymarfer Proffesiynol


- Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb Y Cod Ymarfer Proffesiynol

Yn ogystal â nifer o ddogfennau yn ymwneud â'n hymgyngoriaeth gwnaethom ddatblygu'r Cod Ymarfer proffesiynol (gweler [safonau 42-50](#) isod).

### Marc Rwyf Wedi Cofrestru:

Gall ceiropractyddion lawrlwytho poster personol a marc Rwyf Wedi Cofrestru i amlygu i gleifion eu bod wedi cofrestru gyda'r CCC. Mae'r poster personol a'r marc ar gael yn Gymraeg o'r porth cofrestrydd. Mae cyfanswm o 11 ceiropractydd gwahanol wedi lawrlwytho'r fersiwn Gymraeg o'u poster personol.

Poster Rwyf wedi Cofrestru wedi'u lawrlwytho'n flynyddol.		
	Cymraeg	Saesneg
2023	8	230
2024	3	170



### Safonau 23-32: Ymchwiliadau ac achosion cyfreithiol

Ni dderbyniodd y CCC unrhyw geisiadau cymwys ar gyfer achosion neu ddogfennaeth yn y Gymraeg yn ystod y cyfnod. Mae templedi gwrandawiadau a dogfennau a anfonir at gofrestreion a thystion yn amlygu:

Mae gennych yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyflwyno achosion ysgrifenedig neu gyflwyno dogfennau i ni mewn perthynas â'r ymchwiliad hwn. Rhowch wybod i ni os hoffech siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd, gwrandawiadau, neu alwadau ffôn wedi'u trefnu, neu os hoffech dderbyn dogfennau sy'n ymwneud â'r ymchwiliad hwn yn Gymraeg; a byddwn yn gwneud y trefniadau perthnasol. Sylwer nad oes yr un o'n staff yn siarad Cymraeg.

You have the right to use the Welsh language when presenting written cases or submitting documents to us in relation to this investigation. Please let us know if you would like to speak Welsh in meetings, hearings, or arranged telephone calls, or if you would like to receive documents relating to this investigation in Welsh; and we will make the relevant arrangements. Please note that none of our staff speak Welsh.

### Safonau 33-36: Gwefannau a chyfryngau cymdeithasol

Mae [gwefan y CCC](#) ar gael yn Gymraeg a gellir toglo rhwng Cymraeg a Saesneg gan ddefnyddio'r dolenni CY ac EN yn y bar llywio.

Ni wnaethom bostio unrhyw gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol a oedd yn berthnasol i Gymru yn unig, fodd bynnag ar Ddydd Gŵyl Dewi gwnaethom ddefnyddio [fideo yn y Gymraeg](#) i amlygu sut rydym yn defnyddio Safonau'r Gymraeg ac ein bod eisiau annog ceiropractyddion Cymraeg eu hiaith.

### Safonau 37-38: Hysbysiadau Swydddogol

Ni wnaethom gynhyrchu unrhyw hysbysiadau swydddogol cymwys yn ystod y cyfnod perthnasol yn 2024.

### Safonau 39-41: Codi ymwybyddiaeth o'n gwasanaethau Cymraeg, a'n hunaniaeth gorfforaethol

Ni wnaethom ddarparu unrhyw wasanaethau cymwys yn ystod y cyfnod perthnasol yn 2024. Mae ein tudalen gswllt ar y wefan yn cynnwys:

Os byddwch yn dewis cyfathrebu â ni yn Gymraeg, byddwn yn ymateb yn Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Fodd bynnag, nodwch nad oes yr un o'n staff yn siarad Cymraeg ar hyn o bryd.

Mae gennym fersiwn Gymraeg o'r hunaniaeth gorfforaethol, ac rydym yn ei defnyddio pan fo'n briodol.

## Safonau 42-50: Lluoio Polisi

Yn ystod 2024, gwnaeth y CCC adolygu, golygu ac ymgynghori ar y Cod. Mae'r Cod yn amlinellu'r safonau perfformiad, ymddygiad a moeseg a ddisgwylir gan geiropactyddion yn y DU. Rhaid i geiropactyddion fodloni'r safonau hyn i ymuno â'n cofrestr ac aros arni.

Wrth baratoi ar gyfer yr ymgynghoriad ffurfiol, fe wnaethom ystyried pa effeithiau, os o gwbl, y byddai'r cynnig yn eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Llywiwyd yr ystyriaeth hon gan brofiad byw aelod o staff sy'n siarad Cymraeg. Gwnaethom hefyd ystyried a oedd unrhyw gamau pellach y gallem eu cymryd i gael effaith gadarnhaol ar ddefnydd y Gymraeg. Amlinellwyd ein hystyriaethau terfynol yn ein [Hasesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg](#).

Gwnaethom baratoi dogfennau ategol i esbonio'r newidiadau arfaethedig yn fwy manwl, ac roedd y rhain ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg:

- [Cod Ymarfer Proffesiynol Arfaethedig](#)
- [Canllaw Ymgynghori](#)
- [Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb \(gan gynnwys y Gymraeg\)](#)
- [Geirfa Termau a ddefnyddiwyd](#)
- [Mapio Cod 2016 i'r Cod arfaethedig](#)

Cyhoeddwyd yr holiadur ymgynghori yn ddwyieithog a cheisiwyd barn yr holl ymatebwyr (siaradwyr Cymraeg a Saesneg) ynghylch a oedd yr Aseiad Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg yn disgrifio'r effaith ar y Gymraeg yn gywir, gyda chyfle i wneud sylwadau pellach os oedd yn briodol.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, a mireinio pellach, cytunwyd ar y Cod Ymarfer Proffesiynol gan y Cyngor a'i gyhoeddi ddiwedd 2024.

Credwn mai Egwyddor G sydd fwyaf perthnasol i annog defnydd o'r Gymraeg gan ein cofrestreion, ac rydym yn amlygu safon G3 yr ydym yn gobeithio y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnydd o'r Gymraeg gan geiropactyddion a'u cleifion. Rydym yn deall mai dyma'r tro cyntaf ymhlith rheoleiddwyr gofal iechyd y DU.

<b>Egwyddor G</b> Rhaid i chi gyfathrebu'n broffesiynol, yn briodol ac yn effeithiol	
<b>Fel ceiropactydd, rhaid i chi:</b>	
<b>G3</b>	bod â gwybodaeth weladwy a hawdd ei deall i'r claf am ffioedd, polisïau codi tâl a sut i wneud cwyn. Rhaid i'r wybodaeth hon gynnwys hawl y claf i newid ei feddwl am ei ofal a'i hawl i gyfeirio unrhyw gwynion nad ydynt yn cael eu datrys i'r CCC.  Rhaid i chi ymateb yn brydlon ac yn briodol i unrhyw gwynion sy'n codi.  Os ydych chi'n ymarfer yng Nghymru, dylech chi hefyd ystyried cynnig gwybodaeth sydd ar gael yn y Gymraeg.

## Safonau 51-56: Datblygu ein gweithlu

Mae'r CCC yn asesu sgiliau iaith ein gweithlu yn rheolaidd ac yn rhoi cynnig i bob aelod o staff a phartner ddilyn cwrs Blasu Ar-lein Cymraeg Gwaith.

Mae'r pecyn cynefino staff yn cynnwys adran am y Gymraeg i sicrhau bod staff y dyfodol hefyd yn datblygu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac yn deall ein cyfrifoldebau o dan y safonau.

## Safonau 57-60: Recriwtio a Phenodi gweithlu

Yn ystod 2024 gwnaethom recriwtio i lenwi 9 swydd wag staff, a 13 rôl partner. Ym mhob achos, dyfarnwyd nad oedd sgiliau'r Gymraeg yn angenrheidiol ar gyfer y rôl.

Fodd bynnag, gwnaethom recriwtio aelod o staff a oedd yn rhugl yn y Gymraeg ar sail tymor penodol. Er nad oedd ei rôl yn gofyn am y gallu i siarad Cymraeg, roedd ei phrofiad byw fel siaradwr Cymraeg yn amhrisiadwy yn ein gwaith paratoi ar gyfer ymgynghoriad y Cod Ymarfer Proffesiynol. Mae hi wedi gadael y CCC ers hynny.

## Safonau 60-67: Cofnodion, safonau a gwybodaeth sy'n berthnasol i Safonau'r Gymraeg

Mae gan y CCC systemau ar waith i gipio'r metrigau sy'n ofynnol gan Safonau'r Gymraeg. Mae'r manylion isod.

## Metrigau'r Gymraeg

Yn ôl ein dyletswydd o dan safon 66, yn ystod 2024, cofnododd y CCC:

<b>Cwynion</b>	
Nifer y cwynion a dderbyniwyd yn gysylltiedig â'n cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.	0
<b>Sgiliau Cymraeg Staff</b>	
Nifer y cyflogeion sydd â sgiliau'r Gymraeg ar 31 Rhagfyr 2024* <i>*Gwnaethom gyflogi aelod o staff o oedd yn rhugl yn y Gymraeg ar dymor penodol yn ystod y flwyddyn, fodd bynnag mae hi wedi gadael y CCC.</i>	0
<b>Recriwtio Staff</b>	
Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd O'r rhain y nifer a gategoreiddiwyd fel:	22 (9 staff, 13 partner)
Sgiliau'r Gymraeg yn hanfodol;	0
Angen dysgu sgiliau'r Gymraeg ar benodi;	0
Sgiliau'r Gymraeg yn ddymunol;	0
Nid oes angen sgiliau'r Gymraeg;	22

**Cyngor Ceiropractig Cyffredinol**

Park House

186 Kennington Park Road

Llundain

SE11 4BT

Ff: +44 (0) 020 7713 5155

E: [enquiries@gcc-uk.org](mailto:enquiries@gcc-uk.org)

G: [www.gcc-uk.org](http://www.gcc-uk.org)

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg